EESW Project Assessment Criteria 2018-19

The aim of the assessment procedure is to provide feedback to the students by indicating the level of achievement under each of the criteria.
Teams are assessed on the following 8 categories and marks are awarded from 1 to 5 as indicated below (with 5 being the highest). An average achievement equates to 3 marks and the two marks either side indicate performance levels above and below average.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

1. Analysis of Problem	2. Technical Knowledge	3. Solution	4. Evaluation Against Project Brief
1 Shows little or no understanding of the problem. **3** Sufficient understanding of the problem, but some areas lack clarity. **5** Full analysis of the problem in context, identification of the parameters and crux of the problem and explanation of the issues involved.	**1** Little understanding of the technical knowledge and principles shown. **3** Has an adequate understanding of the knowledge involved and has applied these principles to produce the solution/response. **5** Has an excellent understanding of the technical knowledge required, has demonstrated that this knowledge has been applied to the project and has produced a design using sound principles.	**1** The product/system/design chosen barely meets the need and no others have been identified. **3** The product/system/design demonstrates that the need could be met but further options need to be explored. **5** The product/system/design demonstrates clearly that the need can or has been met and all options were fully explored.	**1** Has submitted little or no evidence of evaluation. **3** Has evaluated the project against a detailed specification derived from the original brief only. **5** Has evaluated the project against a detailed specification and shown awareness of the commercial, social and environmental implications of their brief.
5. Project Management & Teamwork	**6. Report**	**7. Display Stand***	**8. Formal Presentation**
1 Shows little evidence of planning, time and resource management or teamwork. **3** Some evidence of dividing tasks between members in a reasonable manner, demonstrated planning skills and shown evidence of time and resource management. **5** Project has been well managed and the team have clearly allocated roles throughout the project to ensure delivery at all key stages.	**1** Has submitted a barely adequate report. **3** Has submitted a clear report but which lacks precision or contains too much superfluous information. **5** Has submitted a report which is clear and concise, well presented, accurately sets out the process undertaken and includes adequate and relevant information.	**1** Insufficient material which has not effectively presented the problem and its solution. **3** Used reasonably effective material which has communicated the problem and its solution quite well, but requires further development. **5** Has displayed well-presented material including good quality images to show that the solution can fulfil the brief.	**1** Has not effectively presented the problem and its solution with only some team members contributing. **3** Has communicated the problem and its solution quite well, including all team members and answered questions accordingly. **5** Has made a professional presentation which would convince industry to consider their response (with or without further development) and fully answered all questions with a good understanding.

* Please note that no additional marks should be awarded for use of company banners which are included within the team's display stand. Only the student teams' own display work and any associated solutions/models/prototypes/coding examples etc will be scored.

Meini Prawf Asesu Prosiect Cynllun Addysg Peirianneg Cymru (EESW) 2018-19

Amcan y weithdrefn asesu yw rhoi adborth i'r myfyrwyr trwy nodi lefel y cyflawniad o dan bob un o'r meini prawf. Caiff timau eu hasesu yn unol â'r wyth categori canlynol ac maen nhw'n cael marc rhwng 1 a 5 fel y nodir isod (5 yw'r marc uchaf). Mae cyflawniad cyfartalog yn gyfystyr â 3 marc ac mae un marc yn fwy neu'n llai na hynny yn dynodi lefelau perfformiad sy'n uwch neu'n llai na'r cyfartaledd.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

1. Dadansoddi Problem	2. Gwybodaeth Dechnegol	3. Ateb	4. Gwerthuso yn erbyn Briff y Prosiect
1 Yn dangos ychydig iawn neu ddim dealltwriaeth o'r broblem. **3** Yn deall y broblem yn ddigonol, ond diffyg eglurder. **5** Dadansoddiad llawn o'r broblem yn ei chyd-destun, gan nodi'r paramedrau, hanfod y broblem ac egluro'r materion perthnasol.	**1** Ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r wybodaeth a'r egwyddorion technegol. **3** Dealltwriaeth ddigonol o'r wybodaeth berthnasol, gan ddefnyddio'r egwyddorion perthnasol i greu ateb/ymateb. **5** Dealltwriaeth ragorol o'r wybodaeth dechnegol berthnasol, gan ddangos defnydd o'r wybodaeth hon yn y prosiect a defnydd o egwyddorion cadarn i greu dyluniad.	**1** Prin iawn y mae'r cynnyrch/system/dyluniad a ddewiswyd yn diwallu'r angen, ac ni nodwyd unrhyw syniadau eraill. **3** Mae'r cynnyrch/system/dyluniad yn dangos y gallai'r angen gael ei ddiwallu, ond mae angen ystyried opsiynau eraill. **5** Mae'r cynnyrch/system/dyluniad yn dangos yn glir bod modd diwallu'r angen, neu ei fod wedi'i ddiwallu, a bod yr holl opsiynau wedi'u hystyried yn llawn.	**1** Wedi cyflwyno ychydig iawn neu ddim tystiolaeth o werthuso. **3** Wedi gwerthuso'r prosiect yn erbyn manyleb fanwl sy'n seiliedig ar y briff gwreiddiol yn unig. **5** Wedi gwerthuso'r prosiect yn erbyn manyleb fanwl gan ddangos ymwybyddiaeth o oblygiadau masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol y briff.
5. Rheoli Prosiect a Gwaith Tîm	**6. Adroddiad**	**7. Stondin Arddangos***	**8. Cyflwyniad Ffurfiol**
1 Ychydig iawn o dystiolaeth o waith cynllunio, rheoli amser ac adnoddau neu waith tîm. **3** Rhywfaint o dystiolaeth o rannu tasgau rhwng aelodau mewn ffordd resymol, wedi dangos sgiliau cynllunio a thystiolaeth o reoli amser ac adnoddau. **5** Mae'r prosiect wedi'i reoli'n dda ac mae'n amlwg bod y tîm wedi dyrannu rolau gydol y prosiect i sicrhau llwyddiant ym mhob cam allweddol.	**1** Prin fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn foddhaol. **3** Wedi cyflwyno adroddiad clir sy'n ddiffygiol o ran cywirdeb neu'n cynnwys gormod o wybodaeth ddiangen. **5** Adroddiad clir a chryno wedi'i gyflwyno'n dda, sy'n nodi'r broses a ddefnyddiwyd yn gywir ac yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a pherthnasol.	**1** Deunydd annigonol nad yw wedi cyflwyno'r broblem na'r ateb yn effeithiol. **3** Wedi defnyddio deunydd cymharol effeithiol sydd wedi cyflwyno'r broblem a'r ateb yn gymharol dda, ond mae angen datblygu'r gwaith. **5** Wedi cyflwyno deunydd yn dda gan gynnwys delweddau o ansawdd da i ddangos bod yr ateb yn gallu bodloni'r briff.	**1** Nid yw wedi cyflwyno'r broblem na'r ateb yn effeithiol, ac nid yw pob aelod o'r tîm wedi cyfrannu. **3** Wedi cyflwyno'r broblem a'r ateb yn gymharol dda, ac mae pob aelod o'r tîm wedi cyfrannu ac wedi ateb y cwestiynau yn briodol. **5** Wedi gwneud cyflwyniad proffesiynol a fyddai'n argyhoeddi'r byd diwydiant i ystyried yr ymateb (ar ôl ei ddatblygu ymhellach ai peidio) ac wedi ateb pob cwestiwn yn llawn gan amlygu dealltwriaeth dda.

* Noder na ddylid rhoi unrhyw farciau ychwanegol am ddefnyddio baneri cwmnïau sydd wedi'u cynnwys ar stondin arddangos y tîm. Dim ond gwaith arddangos timau'r myfyrwyr eu hunain ac unrhyw atebion/modelau/prototeipiau/enghreifftiau codio ac ati a fydd yn ennill marciau.